

*Gofynwch am:*

*Ffôn:*

*E-Bost:*

*Ein Cyf:*

*Eich Cyf:*

*Dyddiad:*

10 Rhagfyr 2020

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Unwaith eto, diolch am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn mewn argyfwng iechyd cyhoeddus.

Mae cyfraddau heintio ar y lefelau uchaf erioed ac mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan i reoli'r sefyllfa hon ac yn gyflym. Os bydd y lefelau heintio yn parhau i godi ar y gyfradd bresennol yna mae perygl gwirioneddol y bydd y system leol yn cael ei llethu yn ystod cyfnod yr ŵyl.

O ganlyniad i gyngor y Prif Swyddog Meddygol yng Nghymru dros nos, bydd ysgolion uwchradd ledled Cymru yn newid i ddysgu cyfunol/o bell o ddydd Llun 14 Rhagfyr 2020. Yn Abertawe, bydd safleoedd ysgolion ar agor a disgwylir i holl staff yr ysgol ddarparu dysgu o bell. Bydd darpariaeth ar gyfer plant sy'n fregus ar gael ym mhob ysgol ac os bydd angen gofal plant ar weithwyr hanfodol ar gyfer y rhai ym mlynnyddoedd 7 ac 8 yna bydd pob ysgol uwchradd yn gwneud y ddarpariaeth honno. Siaradwch â'ch ysgol leol os oes gennych bryderon. Gall ysgol eich plentyn ddweud mwy wrthyich am sut y bydd dysgu'n cael ei gyflwyno yr wythnos nesaf.

A allaf bwysleisio bod angen i'ch plentyn fod gartref yn dysgu tan 18 Rhagfyr. Dylai plant sydd angen bod ar y safle ddod â'u pecyn cinio eu hunain. Cyhoeddir rhagor o fanylion am daliadau prydau ysgol am ddim a dosbarthu bagiau bwyd ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ar 14 Rhagfyr 2020

Yn dilyn cynrychiolaeth gan benaethiaid cynradd, ystyried ffigurau presenoldeb ac yn enwedig y rheol 10 diwrnod ar hunan ynysu cyn y Nadolig, mae Cyngor Abertawe wedi diwygio ei safbwynt. Symud tuag at ddysgu cyfunol yw'r peth iawn i'w wneud mewn ysgolion cynradd hefyd o ystyried ein hamgylchiadau lleol.

Unwaith eto, bydd pob safle ysgol gynradd yn parhau ar agor tan 18 Rhagfyr 2020 a disgwylir i staff barhau i weithio ar ddarparu dysgu o bell o'r ysgol i'r cartref. Bydd mwy o fanylion yn dilyn ar fagiau neu daliadau prydau ysgol am ddim ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 14 Rhagfyr 2020.

Bydd disgwyl i bob ysgol ddarparu ar gyfer y dysgwyr mwyaf bregus sydd angen cymorth wyneb yn wyneb. Dylai gweithwyr hanfodol gysylltu â'u hysgol eu hunain ar gyfer darpariaeth gofal plant, os oes angen. Dylai plant sydd angen bod ar safle'r ysgol ddod â phecyn cinio gyda nhw neu archebu bag bwyd drwy'r ysgol

Yn gywir

*Helen Morgan-Rees.*

Helen Morgan-Rees  
Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro